


Date/Dyddiad 14 Rhagfyr 2016
Ask for/Gofynwch am M Matthews
Telephone/Rhif ffôn 01446 709727
Fax/Ffacs 01446 709376
Your Ref/Eich Cyf
My Ref/Cyf MM/StHelens
e-mail/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Directorate of Learning and Skills
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF
Telephone: (01446) 700111 Textphone: (01446)
741219
Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau,
Tŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, Y Barri CF2 8BF
Rhif ffôn: (01446) 700111 Ffôn testun: (01446)
741219
www.valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk



At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgolion Babanod ac Iau Pabyddol St. Helen
Penaethiaid, Staff a Llywodraethwyr Ysgolion Babanod ac Iau Pabyddol St. Helen
Ymgynghoreion Statudol

Annwyl Ymgynghorai

Cynnig i uno Ysgolion Babanod ac Iau Pabyddol St. Helen

Ar 25 Ionawr 2016 cynhaliodd Archesgobaeth Babyddol Caerdydd a Chyrff Llywodraethol Ysgolion Babanod ac Iau St. Helen ymgynghoriad llawn gydag ymgynghoreion rhagnodedig ar gynnig i greu ysgol gynradd a meithrinfa 308 lle i bob oed drwy uno Ysgolion Babanod ac Iau St. Helen. Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus statudol ar 15 Medi 2016 am gyfnod o 28 diwrnod a gaeodd ar 14 Hydref 2016. Derbyniodd Archesgobaeth Babyddol Caerdydd a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion un gwrthwynebiad i'r hysbysiad cyhoeddus ar y cynnig.

Pan geir gwrthwynebiadau i gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus gan gorff llywodraethu ysgol wirfoddol ac awdurdod esgobaethol, mae gofyn i Gabinet y Cyngor benderfynu ar y cynnig. Mae disgwyl yn ôl hynny felly i'r Cyngor benderfynu ar y cynnig i greu ysgol gynradd a meithrinfa newydd 308 lle i bob oed drwy uno Ysgolion y Babanod ac Iau St. Helen.

Ar 12 Rhagfyr 2016, cyfarfu Cabinet Cyngor Bro Morgannwg i benderfynu ar y cynnig i greu Ysgol Gynradd newydd a Meithrinfa 308 lle i bob oed drwy uno Ysgolion Pabyddol y Babanod ac Iau St. Helen. Wrth wneud ei benderfyniad ystyriodd y Cabinet y cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefnu Ysgolion 2013. Nodwyd y derbyniwyd un gwrthwynebiad o safbwynt y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae prif bryderon y gwrthwynebydd wedi eu crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebu ynghyd ag ymateb gan Archesgobaeth Babyddol Caerdydd a Chyrff Llywodraethu Ysgolion y Babanod ac Iau St. Helen. Mae'r adroddiad gwrthwynebu i'w gael ar wefan y cyngor www.valeofglamorgan.gov.uk/sthelens neu mae copi called ar gael ar gais i'r cyfeiriad uchod neu'r e-bost hwn MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk.

Gan ystyried yr holl faterion, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig. O ganlyniad caiff ysgol gynradd newydd 308 lle i bob oed ei chreu drwy uno Ysgolion Pabyddol y Babanod ac Iau St. Helen o'r 1 Mai 2017.

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Cynnal ansawdd a safon yr addysg yn yr ardal;
- Cynnal mynediad at a dewis rhieni i gael addysg enwadol yn yr ardal;
- Parhau i ddarparu cymysgedd o ddarpariaeth Gymraeg, Saesneg a darpariaeth ffydd o fewn Y Barri a'r cyffiniau;
- Arwain at effeithlonrwydd uwch yn y defnydd ar adnoddau addysg yn yr ardal honno ac ar draws yr ystâd ysgolion;

Ymhlith y rhesymau dros y penderfyniad o safbwynt y ffactorau a amlinellwyd yn y Cod Trefnu Ysgolion y mae'r canlynol;

Safon ac Ansawdd Addysg

Bydd y cynnig yn galluogi cyfuno safon uchel yr addysg sydd yn y ddwy ysgol sydd ar wahân ar hyn o bryd ac i gyfrannu at ddarpariaeth o safon uchel o fewn un ysgol yn gweithredu ar ddwy safle. Caiff yr ysgol newydd ei rheoli gan un pennaeth. Byddai hyn yn galluogi gweledigaeth ac arweiniad a rennir a lleihau nifer y pwyntiau pontio rhwng ysgolion y mae'r plant yn eu profi ar hyn o bryd. Bydd y cynnig yn cael y gorau o'r buddiannau sy'n codi yn sgil pontio parhaus o'r fath a bydd yn cynnig potensial uwch i wella lefelau cyrhaeddiad pob disgybl.

Mae'r uno wedi ei seilio ar egwyddorion addysgiadol cadarn gan gynnwys cynnydd disgyblion trwy'r ysgol gydag un ethos reoli ac addysgeg.

Barn Estyn yw "ymddengys y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau'r ddarpariaeth addysgol a'r deilliannau i ddisgyblion yn yr ardal"

Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd Y Barri a'r cyffiniau yn cadw darpariaeth Gymraeg, Saesneg a darpariaeth ffydd. Ni fydd nifer y llefydd ysgol yn yr ardal yn newid o ganlyniad i'r cynnig. Bydd yr ysgol unedig yn parhau i ateb galw'r rhieni am lefydd o fewn yr ysgolion.

Ni fydd unrhyw effaith ar hyd siwrneiau a'r llwybrau cerdded i ysgolion sydd ar gael o ganlyniad i'r cynnig gan y bydd yr ysgol yn weithredol dros y ddau safle presennol. Ni fydd dim yn y cynnig yn newid trefniadau, cymhwysedd na hygyrchedd cludiant ysgol.

Sicrhau adnoddau addysg

Bydd uno'r ddwy ysgol yn golygu cyllido'r ysgol gynradd ar yr un sail ag y cyllidir ysgolion cynradd eraill sydd â meithrinffeydd. Bydd y cyllid a neilltuwyd i'r ysgol gynradd oddeutu £60,000 yn llai na'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i'r Ysgol Fabanod a'r Ysgol Iau.

Byddai arbediad net oddeutu £60,000 yn cael ei greu drwy leihau dwy swydd Pennaeth yn un swydd, lleihad yn y lwfans ysgol fach a chyflwyno lwfans dau safle i'r ysgol.

Bydd uno'r ysgolion yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosib.

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y cymal yn y gweithdrefnau fel y'u lluniwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i unrhyw benderfyniad o eiddo'r Cabinet gael ei adolygu. Os bydd y penderfyniad yn cael ei alw i mewn, caiff pob rhanddeiliad wybod.

Yn gywir



Paula Ham
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro